# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 21AIN IONAWR, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

****I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 13 Ionawr 2025)

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (3)

Y Cynghorwyr

Elfed Williams (Cadeirydd)

Gareth Williams

Angela Russell

Hefin Underwood (Eilydd)

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

## 4. CAIS AM DRWYDDED EIDDO 5 - 6

New Bangor Grill Ltd, Uned 25 Canolfan Deiniol, Bangor, Gwynedd
LL57 1NW

I ystyried y cais

**TREFN MEWN GWRANDAWIADAU TRWYDDEDU**

1. Adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.
2. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
3. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
4. Gall yr ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion
5. Gall aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
6. Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
7. Gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
8. Gall cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.

**Atgoffir oll o'r pedwar egwyddor i'w hystyried wrth benderfynu ar y ceisiadau, sef:**

1) **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;**
2) **Diogelwch y Cyhoedd;**
3) **Rhwystro Niwsans Cyhoeddus; ac**
4) **Amddiffyn plant rhag niwed:**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **21/01/2025** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - NEW BANGOR GRILL LTD, UNED 25 CANOLFAN DEINIOL, BANGOR LL57 1NW** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD** |

## 1 CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer New Bangor Grill Ltd, Uned 25 Canolfan Deiniol, Bangor, Gwynedd LL57 1NW. Mae'r cwmni yn ymgeisio am drwydded eiddo ar gyfer lle bwyd a gynlluniwyd ar gyfer casglu/bwyd parod, danfon bwyd gyda nifer fach o seddi i fwyta i mewn yn yr eiddo. Byddant yn gwerthu amrywiaeth o gynhyrchion wedi eu grilio, byrgers, cyw iâr, wrapiau, platiau stêc, pwdinau a diodydd oer (dim alcohol).

1.2 Mae'r cais yn cael ei gyflwyno mewn perthynas â darparu Lluniaeth Hwyr yn y Nos ar ac oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon bod tystiolaeth ddigonol bod y cais wedi'i gyflwyno'n unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol, a'i fod felly yn ddilys.

Gweler y tabl isod am fanylion oriau arfaethedig y gweithgareddau trwyddedu:

**Oriau Agor:**
**Dydd Sul 11:00 - 02:00**
**Dydd Llun 11:00 – 02:00**
**Dydd Mawrth 11:00 – 02:00**
**Dydd Mercher 11:00 – 02:00**
**Dydd Iau 11:00 – 02:00**
**Dydd Gwener 11:00 – 02:00**
**Dydd Sadwrn 11:00 – 02:00**

**Gweithgareddau Trwyddedig:**

**Lluniaeth Hwyr yn y Nos - Dan do a'r tu allan.**
**Dydd Sul 23:00 - 02:00**
**Dydd Llun 23:00 - 02:00**
**Dydd Mawrth 23:00 - 02:00**
**Dydd Mercher 23:00 - 02:00**
**Dydd Iau 23:00 - 02:00**
**Dydd Gwener 23:00 - 02:00**
**Dydd Sadwrn 23:00 - 02:00**

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

- Cafodd cegin yr eiddo ei hail-wampio i'r safonau uchaf gan ddiddymu sŵn ac arogl gyda system echdynnu fodern.
- Bydd polisïau gweithredu safonol yn cael eu defnyddio i sicrhau bod yr eiddo yn ddiogel a heb unrhyw drosedd ac anhrefn gyda'r holl staff wedi eu hyfforddi'n drylwyr.
- Mae dyluniad yr eiddo wedi ymgorffori'r systemau TCC diweddaraf i helpu monitro popeth sy'n digwydd y tu fewn a'r tu allan i'r eiddo. Bydd y camerâu yn cael eu gosod mewn mannau pwysig a chedwir y recordiadau am o leiaf 28 diwrnod.
- Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi i'r safonau uchaf ac mae rhestrau gwirio gweithredol i agor a chau wedi eu dogfennu yn llawn yn y Llawlyfr Gweithredu gyda'r hyfforddiant i staff yn cynnwys Cymorth Cyntaf, Diogelwch Tân, Gweithdrefnau Ymadael, Bygythiadau Terfysgol.

- Biniau 'sbwriel ar y safle i gael gwared ar yr holl 'sbwriel. Bydd gwastraff masnachol yn cael ei gasglu a'i storio gan ddefnyddio'r biniau a ddarparwyd gan y cwmni rheoli gwastraff.

**Gweler Rhan M o'r cais am y rhestr lawn o fesurau a gynigir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu.**

## 3. <u>YMGYNGHORIAD</u>

Yn dilyn ymgynghori ar y cais, derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU A GYFLWYNWYD |
|---|---|
| Heddlu Gogledd Cymru | Sylwadau |

### <u>3.1 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru</u>

3.2 Nid oes gan Heddlu Gogledd Cymru unrhyw dystiolaeth o Drosedd ac Anhrefn sydd yn uniongyrchol yn ymwneud â'r safle i gyfiawnhau gwrthwynebu'r cais. Er hynny, mae'r ymgeisydd wedi nodi ei fwriad i beidio cyflogi staff diogelwch ar benwythnosau ac ar adegau prysur gan ei fod yn credu y gallu hyn ddychryn cwsmeriaid a soniodd bod lleoliad Gorsaf yr Heddlu gerllaw.

3.3 Mae Heddlu Gogledd Cymru yn awgrymu yn barchus na ddylid dibynnu ar agosrwydd Gorsaf yr Heddlu fel mesur rheoli gan yr ymgeisydd. Mae siopau prydau parod hwyr yn y ddinas wedi gweld nifer o ddigwyddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac anhrefn cyhoeddus yn ymwneud ag alcohol, ac o ganlyniad mae mwyafrif y busnesau bwyd parod hwyr wedi dewis cyflogi staff diogelwch ar gyfer masnachu yn hwyr yn y nos. Lle cafodd staff diogelwch eu cyflogi yn ystod oriau hwyr, gwelwyd gostyngiad yn y problemau sy'n gysylltiedig gyda'r eiddo hynny. Nid yw cyflogi staff diogelwch yn orfodol; er hynny, lleolir y busnes o fewn ychydig o fetrau i far sydd newydd agor gyda thrwydded hwyr a chapasiti uchel, felly fe awgrymir ei bod yn rhesymol tybio y bydd gan hyn effaith ar y busnes ac o'r herwydd byddai yn rhesymol ystyried cyflogi staff diogelwch.

**Gweler y ddogfen ynghlwm am sylwadau llawn Heddlu Gogledd Cymru**

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir bod y Pwyllgor hwn yn ystyried sylwadau Heddlu Gogledd Cymru gan ystyried cynnwys amod ar y drwydded o safbwynt darpariaeth swyddogion diogelwch ar y drws os caiff y cais ei gymeradwyo, yn unol â Deddf Trwyddedu 2003.